Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | **21.06.24** |
| **Pwnc / Subject:** | **Newidiadau arfaethedig i'r fethodoleg mesurau perfformiad dysgu oedolion yn y gymuned** |

## Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

### Ymateb

| |
|---|
| **Cyflwyniad**<br>Rhowch naratif byr o'n safbwynt cyffredinol. Wrth gloi, defnyddiwch bwyntiau bwled i amlygu ein prif negeseuon a'n galwadau polisi. |

### Cwestiynau'r ymgynghoriad

| |
|---|
| **C1.** Ydych chi'n cytuno y dylid newid y fethodoleg ar gyfer deilliannau gweithgarwch Dysgu Oedolion i'w gwneud yn fwy cyson â gweithgareddau dysgu ôl-16 eraill? Os na, pam ddim? |
| **Cytuno** – mae'r manteision arfaethedig yn y papur ymgynghori yn ymddangos yn gadarn.<br><br>Byddai'n fuddiol ystyried ble mae ystod lawn y gweithgareddau dysgu oedolion sy'n digwydd mewn ardal yn cyd-fynd â mesurau cyflawniad, er enghraifft y rhai a ariennir trwy Lluosi.<br><br>Gallai hefyd fod yn fuddiol rhoi mwy o eglurder am ddeilliannau disgwyliedig mewn Dysgu Oedolion yn y Gymuned, y tu hwnt i'r rhai sydd wedi'u seilio ar achrediad neu gymhwyster, er enghraifft y rhai a allai gael eu hasesu gan diwtoriaid o bosibl. |
| **C2.** Ydych chi'n cytuno y dylai'r mathau o weithgareddau i'w heithrio o'r mesurau fod yr un fath â'r rhai sydd wedi'u heithrio o'r mesurau cyflawniad a ddefnyddir ar gyfer dosbarthiadau chweched ysgolion a sefydliadau AB? Os na, pam ddim? |
| **Heb benderfynu** – mae hwn yn ymddangos yn gynnig rhesymol. Fodd bynnag, heb allu gweld esboniad llawn o'r meini prawf eithrio neu restr o weithgareddau sydd wedi'u heithrio, ni allwn roi ymateb cwbl wybodus. |
| **C3.** Ydych chi'n cytuno, os yw dysgwr yn dilyn nifer o gyrsiau â'r un enw o fewn yr un flwyddyn mewn darparwr, mai un yn unig sy'n cael ei gyfrif (yr un sydd â'r dyddiad dechrau hwyraf)? Os na, pam ddim? |
| **Cytuno** – yn amodol ar y canlynol<br><br>Mewn rhai achosion o fewn Dysgu Oedolion yn y Gymuned, gallai dysgwyr gwblhau cwrs, ac wedyn ailgofrestru'n ddilys ar yr hyn sy'n ymddangos fel yr un cwrs, ond ymgymryd â gwaith i safon neu lefel uwch. Efallai mai'r ffordd ymlaen yw ei gwneud yn glir i ddarparwyr y dylent ofalu eu bod yn sicrhau bod teitlau cyrsiau yn dangos dilyniant dysgwyr yn gywir, ac y gallai fod angen i ddysgwyr o fewn yr un grŵp addysgu gael eu cofrestru ar wahanol gyrsiau â theitlau gwahanol, e.e. 'Cyflwyniad i gymwysiadau swyddfa E3' neu 'Cyflwyniad i gymwysiadau L1'; nid dim ond eu cofrestru ar un cwrs o'r enw 'Cyflwyniad i gymwysiadau swyddfa E3-L1' |

| |
|---|
| **C4**. Ydych chi'n cytuno, os na ellir dilysu trosglwyddiadau, y dylid eu cyfrif fel achosion o beidio â chwblhau? Os na, pam ddim? |
| **Cytuno** |

| |
|---|
| **C5.** Ydych chi'n cytuno, os caiff gweithgaredd ei gofnodi gan ddefnyddio cod generig (cod L) a'i farcio fel un nad yw'n asesadwy yn LA40, dylid bob amser ei drin fel gweithgaredd nad yw'n asesadwy (yn y gorffennol, roedd yn dibynnu ar y math o weithgaredd)? Os na, pam ddim? |
| **Cytuno** – yn amodol ar y canlynol.<br><br>Er bod cymhwyso'r newid hwn i'r data diweddaraf yn dangos y bydd yn cael yr effaith leiaf, dylid monitro graddfa ac addasrwydd defnydd darparwyr o 'ddim yn asesadwy' i sicrhau ei fod yn parhau'n briodol ac yn gywir wrth fynd ymlaen. |

| |
|---|
| **C6.** A oes unrhyw sylwadau neu ymholiadau eraill yr hoffech eu codi? |
| **Nodyn 1** – mae'n ymddangos bod y papur ymgynghori wedi drysu'r diffiniadau o gyfradd cyrhaeddiad a chyfradd llwyddiant ym mharagraff 8 (dangosir isod).<br><br>*'Mae'r newidiadau i'r fethodoleg yn unig a bydd y mesurau presennol yn cael eu defnyddio o hyd i gyfrifo deilliannau dysgwyr:*<br>*• Cyfradd cwblhau – cyfran y gweithgareddau dysgu yr ymgymerwyd â nhw a gwblhawyd.*<br>*• Cyfradd llwyddo – cyfran y gweithgareddau a gwblhawyd sy'n arwain at ennill cymhwyster.*<br>*• Cyfradd cyrhaeddiad – cyfran y gweithgareddau dysgu a ddechreuwyd, sy'n arwain at ennill cymhwyster.'*<br><br>**Rydym yn tybio mai camgymeriad clercaidd yw'r uchod a bod y diffiniad o gyfradd llwyddo, mewn gwirionedd, yn cael ei roi gan y trydydd pwynt bwled uchod, nid yr ail. Os ydym ni wedi camddeall a bod y diffiniadau uchod fel y dylent fod, rhowch wybod i ni.**<br><br>**Nodyn 2 –** Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ddiweddaru ei chofnodion o bartneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned fel y'u defnyddir i strwythuro adroddiadau Dysgu Oedolion yn y Gymuned porth Hysbysu Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Mewn rhai achosion, nid yw'n ymddangos ei fod yn adlewyrchu'r drefn bresennol o ran partneriaethau. |

**Anfonwch y ffurflen ymateb hon ac unrhyw adborth arall i post16quality@gov.wales erbyn dydd Gwener, 21 Mehefin 2024.**